Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Blynyddol – Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol – Blwyddyn Lawn - 2019/20

**Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth (01/04/2019 i 31/03/2020)?**

**Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd â chyfeirnod PAM ac wedi'u hamlygu mewn coch bras yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus – cyfeiriwch at ddwy dudalen olaf yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth.**

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **1 Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc** | | | | | |
| CP/002 – Nifer y lleoedd gofal plant diwrnod llawn a ddarparwyd | 2262 | 2228 | 2335 | 2400 | Ambr |
| Rydym wedi gweld cynnydd ers 2018/19, ond mae data 2019/20 yn is na'r targed. Mae nifer y darparwyr cofrestredig bob amser yn newidiol oherwydd cofrestriadau newydd a dadgofrestriadau. Roedd llai o leoliadau cofrestredig ar ddiwedd y flwyddyn. | | | | | |
| CP/003 – Canran y plant sy'n dwlu ar chwaraeon (ar sail nifer yr achosion o gyfranogiad fesul wythnos = 3) | | 50 | | | Amh |
| Nid oedd arolwg i'w gynnal yn 2019/20. Nododd arolwg Dwlu ar Chwaraeon 2018 fod 50% o'r plant yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos. Mae hyn yn ostyngiad o 55% dair blynedd yn ôl, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru o 48%.<br>Mae'r arolwg, un o'r mwyaf o'i fath, yn dangos bod Castell-nedd Port Talbot yn y safle uchaf yng Nghymru o ran y plant sy'n ymwneud â chlwb chwaraeon cymunedol tu allan i'r ysgol (78%). Castell-nedd Port Talbot oedd ar y brig yng Nghymru hefyd o ran cyfranogiad merched mewn chwaraeon (rhwng 7 ac 11 oed), ac yn ail yng Nghymru o ran plant yn gwirfoddoli mewn clybiau chwaraeon. Canfu'r arolwg hefyd fod 82% o ddisgyblion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn hyderus yn rhoi cynnig ar weithgaredd newydd – sy'n uwch na chanran Cymru gyfan, sef 80%. | | | | | |
| CP/005 - **PAM/007** – Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.69 | 94.14 | 94.02<br>**(blwyddyn academaidd 2018/19)** | 95.00 | Ambr |
| Collwyd 211,339 o sesiynau hanner diwrnod allan o 3,534,525 ym Mlwyddyn Academaidd 2018/19 o gymharu â 204,413 o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd allan o 3,490,918 ym Mlwyddyn Academaidd 2017/18.<br><br>**Sylw ynghylch Blwyddyn Academaidd 2018/19:** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiodd nifer o ffactorau ar bresenoldeb yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys: cofnod uwch na'r arfer o salwch ymhlith disgyblion mewn nifer o ysgolion. Roedd cynnydd amlwg hefyd yn nifer y gwyliau heb eu hawdurdodi oedd yn cael eu cymryd yn ystod y tymor ers achos erlyniad Ynys Wyth a gafodd gryn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol. Roedd hyn yn arbennig o wir ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ysgol. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a rhieni i ganfod achos gwaelodol absenoldebau mynych, gyda'r nod o ddarparu ymyriadau a chefnogaeth yn ôl y galw. Penodwyd Swyddog Lles Addysg (SLlA) newydd y llynedd, gyda'r bwriad o ganolbwyntio'n benodol ar weithio gyda'r disgyblion hynny a nodwyd fel rhai sy'n absennol yn fynych. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu rhwng Swyddogion Lles Addysg a staff allweddol mewn ysgolion i drafod achosion disgyblion unigol, rhoi cyngor a chefnogaeth, a phenderfynu ar gamau gweithredu priodol.<br>Data Cymru gyfan 2018/19 (blwyddyn academaidd 2017/18) yw 94.6%. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn yr 20fed safle yng Nghymru. | | | | | |
| CP/006 - **PAM/008** – Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.64 | 93.48 | 93.46<br>**(blwyddyn academaidd 2018/19)** | 94.50 | Ambr |
| Collwyd 156,205 o sesiynau hanner diwrnod allan o 2,390,235 ym Mlwyddyn Academaidd 2018/19 o gymharu â 151,041 o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd allan o 2,316,937 ym Mlwyddyn Academaidd 2017/18.<br><br>**Sylw ynghylch Blwyddyn Academaidd 2018/19:**<br>Effeithiodd nifer o ffactorau ar bresenoldeb yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys: cofnod uwch na'r arfer o salwch ymhlith disgyblion mewn nifer o ysgolion.<br>Roedd cynnydd amlwg hefyd yn nifer y gwyliau heb eu hawdurdodi oedd yn cael eu cymryd yn ystod y tymor ers achos erlyniad Ynys Wyth a gafodd gryn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol. Roedd hyn yn arbennig o wir ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ysgol. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a rhieni i ganfod achos gwaelodol absenoldebau mynych, gyda'r nod o ddarparu ymyriadau a chefnogaeth yn ôl y galw.<br>Penodwyd Swyddog Lles Addysg (SLlA) newydd y llynedd, gyda'r bwriad o ganolbwyntio'n benodol ar weithio gyda'r disgyblion hynny a nodwyd fel rhai sy'n absennol yn fynych. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu rhwng Swyddogion Lles Addysg a staff allweddol mewn ysgolion i drafod achosion disgyblion unigol, rhoi cyngor a chefnogaeth, a phenderfynu ar gamau gweithredu priodol.<br>Data Cymru gyfan 2018/19 (blwyddyn academaidd 2017/18) yw 93.9%. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn yr 16eg safle yng Nghymru. | | | | | |
| CP/007 - **PAM/033** – Canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | 16.16 | 15.78 | 16.63<br>**(blwyddyn academaidd 2018/19)** | 16.70 | Ambr |
| **Sylw ynghylch Blwyddyn Academaidd 2018/19:**<br>Mae canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi codi o 15.78% (254 o 1610 o ddisgyblion) ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 i 16.63% (258 o 1551 o ddisgyblion) ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.<br>Mae hyn rywfaint yn is na'r targed o 16.7%, ond o fewn y 5%. Dyma un o amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) ac mae'n cysylltu ag Amcan 1, sef: Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. | | | | | |

<table>
<tr><th>Teitl y Dangosydd Perfformiad</th><th>Gwirioneddol 17/18</th><th>Gwirioneddol 18/19</th><th>Gwirioneddol 19/20</th><th>Targed 19/20</th><th>Perff. CAG</th></tr>
<tr><td colspan="6">1 Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc</td></tr>
<tr><td>CP/008 - PAM/034 – Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy’n astudio Cymraeg iaith gyntaf</td><td></td><td>12.85</td><td>11.40<br>(blwyddyn academaidd 2018/19)</td><td>11.50</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="6">Sylw ynghylch Blwyddyn Academaidd 2018/19:<br>Yn achos Blwyddyn Academaidd 2018/19, roedd 166 o ddisgyblion yn studio Cymraeg iaith gyntaf allan o garfan o 1,456 o ddisgyblion, o gymhau â 191 allan o garfan o 1,486 yn 2017/18.<br>Gellir egluro’r gostyngiad hwn yn sgîl y ffaith mai carfan anghyffredin o fach oedd yn astudio Cymraeg yn 2018/19. Mae disgwyl i’r ffigur hwn gynyddu’n barhaus yn ystod y 4 blynedd nesaf.<br>Adroddiad data o 2018/19.</td></tr>
<tr><td>CP/009 - PAM/029 – Mesur 33 – Canran y plant mewn gofal y bu’n rhaid iddyn nhw symud 3 gwaith neu fwy</td><td>6.12</td><td>7.44</td><td>7.77</td><td>7.50</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="6">Mae’r perfformiad wedi cynyddu rywfaint o gymharu â’r un cyfnod yn 2018/19.<br><br>Profodd 23 o blant allan o 296 oedd yn derbyn gofal yn 2019/20 newid lleoliad 3 gwaith neu fwy. Mae’r nifer yma yr un fath â’r llynedd, ond mae cyfanswm y plant sy’n derbyn gofal wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn. Mae’r rhesymau am newid lleoliad yn cynnwys: 3 phlentyn a brofodd newid lleoliad ond sydd wedi aros yng ngofal eu teuluoedd. 3 phlentyn a symudodd o ofal maeth i ddarpariaeth breswyl oherwydd eu hanghenion cymhleth. Profodd nifer o blant newid lleoliad o ganlyniad i gael hyd i rywun addas oedd yn paru â’u hanghenion cymhleth. Mae’r Awdurdod Lleol yn parhau i ystyried pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr maeth, gan gynnwys datblygu tîm therapiwtig er mwyn parhau i wella sefydlogrwydd lleoliadau.</td></tr>
<tr><td>CP/011 - PAM/028 - Mesur 24 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd yn brydlon</td><td>97.88</td><td>94.93</td><td>98.76</td><td>94.00</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="6">2,621 allan o 2,654 yn 2019/20 o gymharu â 2,342 allan o 2,467 yn 2018/19. Mae hyn yn dal yn flaenoriaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant, ac mae’r ffigur yma’n adlewyrchu’r cynnydd a wnaed, o ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd o gymharu â’r llynedd. Cyfartaledd Cymru Gyfan yw 88.9%.</td></tr>
</table>

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **1 Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc** | | | | | |
| CP/013 - **PAM/046** – Canran y bobl ifanc NEET – ymadawyr Blwyddyn 11 sydd heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) | 2.29 | 2.90 | 2.15 | 3.20 | Gwyrdd |
| • Bu'r Gweithwyr Ieuenctid Etifeddiaeth yn cefnogi ymadawyr blwyddyn 11 ar hyd yr haf a hyd at y ciplun pontio. Gwnaeth hynny wahaniaeth o ran helpu'r bobl ifanc hynny oedd heb lwyddo gyda'u cyrchfan gwreiddiol.<br>• Bu gwaith ardderchog mewn partneriaeth rhwng y Cydlynydd Cynnydd Ymgysylltu a'r Uned Data Addysg o ran helpu i ganfod y bobl ifanc sydd angen cefnogaeth.<br>• Bu gwell gwaith mewn partneriaeth rhwng y Cydlynydd Cynnydd Ymgysylltu, y Tîm Etifeddiaeth a Gyrfa Cymru.<br>• Mae'r partneriaethau da wedi parhau rhwng yr Ysgolion, y Gweithwyr Ieuenctid Etifeddiaeth a'r Cydlynydd Cynnydd Ymgysylltu.<br>• Mae'r canlyniad gwell wedi digwydd hefyd oherwydd y berthynas sydd wedi cael ei meithrin rhwng y gweithwyr ieuenctid a'r bobl ifanc hyn, sy'n eu galluogi i'w cefnogi a'u helpu i fynd i gyrchfannau cadarnhaol, ond hefyd gyda'r problemau eraill maen nhw'n eu profi. | | | | | |
| CP/014 – Canran y bobl ifanc 11-19 oed sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Ieuenctid (mesuriad cronnol ar draws y flwyddyn ariannol – bob chwarter) | 44.12 | 35.03 | 45.75 | 42.00 | Gwyrdd |
| 6,754 o 14,762 yn 2019/20 o gymharu â 5,047 o 14,406 yn 2018/19.<br>Mae'r ffigur blwyddyn lawn wedi gwella yn 2019/20 gan fod y gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda'r ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc. | | | | | |
| CP/015 – Canran yr ysgolion sydd wedi mabwysiadu rhaglenni addas i ymdrin â thrais yn erbyn benywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | | 12.12 (data blwyddyn lawn) | 13.64 (data 9 mis) | 21.00 (targed 9 mis) | Coch |
| Oherwydd pandemig Covid-19, mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2019/20 yn cyfeirio at wybodaeth a gasglwyd yn ystod 9 mis cyntaf 2019/20 hyd at 31 Rhagfyr 2019. Targed blwyddyn lawn 2019/20 yw 25%.<br><br>Ar hyn o bryd, mae 9 (allan o 66) ysgol wedi mabwysiadu rhaglen addas i roi sylw i VAWDASV.<br>Yn achos 8 o'r ysgolion hyn, cyflwynwyd Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gyda datblygiad | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| diweddar y wers Perthynas Iach trwy Grŵp 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' yr awdurdod lleol, bydd gwersi oed-briodol yn awr yn cael eu hestyn ar draws yr holl ysgolion. Cyflwynwyd y wers newydd hon mewn 1 ysgol yn ystod Chwarter 3 2019/20 a bydd yn cael ei hestyn i ysgolion ychwanegol dros amser.<br>Er ein bod ni'n gweithio tuag at ein targed blynyddol o 25% ar gyfer 2019/20, gan fod rhywfaint o oedi wedi digwydd yn sgîl trefniadau ariannu, ni lwyddwyd i gyrraedd y targed y tro hwn.<br>Data 2018/19 sy'n cael ei adrodd yn achos y KPI hwn. | | | | | |
| CP/018 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Anafiadau plant (0-15 oed) | 4 | 1 | 3 | Amh | |
| Ar hyn o bryd rydym ni'n adrodd am ostyngiad o 91.4% (ar sail data blwyddyn galendr 2019) yn erbyn targed 2020 Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 40% ar ddata gwaelodlin 2004 – 08. Darparwyd cyfres o fentrau addysg a hyfforddiant blaengar i 21,287 o ddefnyddwyr ffyrdd oedd â phroffil oed plant a phobl ifanc, mae'r holl fentrau addysg a hyfforddiant yn y proffil oed hwn yn cadw at y targed ac yn parhau i dyfu. | | | | | |
| CP/019 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol – Anafiadau beicwyr pedal (pob oed) | 3 | 3 | 0 | Amh | |
| Ni chafodd beicwyr pedal eu lladd na'u hanafu'n ddifrifol (pob oed) yn ystod blwyddyn galendr 2019. Cyflwynwyd rhaglen ysgol lawn ar gyfer hyfforddiant ar y ffordd a beic cydbwyso ar yr iard, cynnal a chadw beic a hyfforddiant ymgyfarwyddo i 829 o ddisgyblion. | | | | | |
| CP/020 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol – Gyrwyr Ifanc (16-24 oed) | 6 | 3 | 1 | Amh | |
| Ar hyn o bryd rydym ni'n adrodd am ostyngiad o 92.9% (ar sail data blwyddyn galendr 2019) yn erbyn targed 2020 Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 40% ar ddata gwaelodlin 2004 – 08. Cyflwynwyd cyfres o fentrau addysg a hyfforddiant blaengar i ddefnyddwyr ffyrdd, a hyrwyddo ymhellach ein hyfforddiant Mewnol/Allanol i yrwyr ac i gaffael trwydded, ochr yn ochr â chynyddu'r gweithgareddau hyrwyddo ar draws y fwrdeistref sirol, e.e. Dim Yfed a Gyrru, ymwybyddiaeth o gyflymder etc.<br>Rydym ni'n parhau i roi sylw i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg trwy amrywiaeth o gyfryngau, e.e. ymgyrchoedd radio, platfformau cyfryngau cymdeithasol, ffeiriau, mentrau mewnol. | | | | | |
| CP/108- **PAM/032** – Sgôr capio 9 | | 341 | 342.1<br>**(blwyddyn academaidd 2018/19)** | 343 | <br>Ambr |
| **Sylw ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2018/19:**<br>Newidiodd cyfrifiadau'r dangosydd yn 2019, a syrthiodd y perfformiad rywfaint o dan y targed, yn rhannol oherwydd bod mynediad cyntaf (sefyll yr arholiad am y tro cyntaf yn unig sy'n cyfrif) yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn 2019, a hefyd newidiadau i rai rheolau o ran gostyngiad, fel nad oedd pwyntiau'n cael eu cynnwys.<br>Data Cymru gyfan 2018/19 (blwyddyn academaidd 2017/18) yw 349. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn safle 14 ar draws Cymru.<br>Adroddiad data o 2018/19. | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **1 Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc** | | | | | |
| CP/109 -**PAM/044** – Nifer y prentisiaethau ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig fesul 1,000 o gyflogeion | | | 5.44 | 10.00 | Coch |
| Dangosydd newydd ar gyfer 2019/20. Dim data cymaradwy.<br><br>Darparwyd 33 o brentisiaethau gan y cyngor yn ystod 2019/20, o gymharu â 71 yn 2018/19.<br><br>Cyfanswm nifer cyflogeion y Cyngor ar 31 Mawrth 2020 yw 6064.<br><br>Mewn perthynas â'n KPI, 'nifer y prentisiaethau ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig fesul 1,000 o gyflogeion', sydd hefyd yn ddangosydd perfformiad cenedlaethol, ein ffigur perfformiad ar gyfer 2019/20 yw 5.44 o brentisiaethau fesul 1,000 o gyflogeion. Mae hyn yn is na'n ffigur targed o 10 am bob 1,000. Y rheswm am hynny yw'r nifer fawr oedd ym mlwyddyn olaf eu llwybr galwedigaethol ac a gwblhaodd eu prentisiaeth yn 2018/19. | | | | | |
| **2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol** | | | | | |
| CP/019 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol – anafiadau i feicwyr pedal (pob oed) | 3 | 3 | 0 | Amh | |
| Ni chafodd beicwyr pedal eu lladd na'u hanafu'n ddifrifol (pob oed) yn ystod blwyddyn galendr 2019. Cyflwynwyd rhaglen ysgol lawn ar gyfer hyfforddiant ar y ffordd a beic cydbwyso ar yr iard, cynnal a chadw beic a hyfforddiant ymgyfarwyddo i 829 o ddisgyblion. | | | | | |
| CP/021 – Nifer yr ymholiadau ynghylch cychwyn busnes newydd a gynorthwywyd | 273 | 392 | 273 | 350 | Coch |
| Roedd llawer o alw am wybodaeth ynghylch hunangyflogaeth a chefnogaeth i gychwyn busnes newydd ar hyd 2019/20. Fodd bynnag, oherwydd swydd wag ymhlith y staff yn chwarter 2, a dyfodiad Covid-19, ni chyrhaeddwyd y targed a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy’n byw yn y fwrdeistref sirol** | | | | | |
| CP/024 – Cymunedau am waith – Nifer y bobl a gafodd gymorth i ddychwelyd i’r gwaith, i hyfforddiant neu i wirfoddoli | 276 | 260 | 434 | 286 | Gwyrdd |
| Mae’r data yn cyfeirio at y Corff Cyflawni Arweiniol (LDB) yn unig, CNPT, a’r ffaith bod targedau wedi cael eu newid yn sgîl ailbroffilio gan Lywodraeth Cymru. Y targed a ddangosir yw targed gwreiddiol Cynllun Corfforaethol 2019-2022. | | | | | |
| CP/025 – Nifer y swyddi a gollwyd yn orfodol gan y Cyngor | 4 | 9 | 9 | | |
| Roedd y 9 swydd a gollwyd (rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020) yn cael eu cyflogi gan Gyrff Llywodraethu Ysgolion ac maent wedi gadael cyflogaeth y Cyngor o dan drefniant dileu swyddi gorfodol fel rhan o broses flynyddol gosod cyllideb yr ysgolion a’r Rhaglen Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion.<br><br>Rydym ni’n dal i gyfyngu cymaint â phosibl ar yr achosion o ddileu swyddi gorfodol. | | | | | |
| CP/031 - **PAM/012** – Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i’w hatal rhag bod yn ddigartref | 55.56 | 53.14 | 51.50 | 58.00 | Coch |
| 326 allan o 633 yn 2019/20.<br><br>Mae Opsiynau Tai wedi sicrhau cyllid am flwyddyn ar gyfer swyddog ataliaeth penodol a fydd yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) a landlordiaid cartrefi sy’n cael eu rhentu’n breifat i geisio cynorthwyo aelwydydd yn llawer cynharach nag ar hyn o bryd. Os bydd yr ataliaeth yn llwyddiannus, dylai nifer yr ymgeiswyr sy’n dod at y gwasanaeth ar adeg derbyn hysbysiad, gydag ôl-ddyledion sylweddol, leihau. Oherwydd sefyllfa Covid-19 rhagwelir y bydd y swyddog ataliaeth dan sylw yn ei swydd erbyn mis Hydref 2020 (yn wreiddiol erbyn 1 Ebrill 2020).<br><br>Effeithiwyd ar berfformiad y dangosydd hwn ym mis Mawrth 2020 oherwydd Covid-19.<br>(Data blwyddyn lawn Cymru gyfan yn 2018-19 oedd 67.9%). | | | | | |

<table>
<tr><th>Teitl y Dangosydd Perfformiad</th><th>Gwirioneddol 17/18</th><th>Gwirioneddol 18/19</th><th>Gwirioneddol 19/20</th><th>Targed 19/20</th><th>Perff. CAG</th></tr>
<tr><td colspan="6">2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy’n byw yn y fwrdeistref sirol</td></tr>
<tr><td>CP/032 - PAM/015 – Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i gyflawni Grant Cyfleusterau i’r Anabl</td><td>241.62</td><td>232.43</td><td>196.00</td><td>230.00</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="6">41,552/212 yn ystod 2019/20 o gymharu â 69,728/300 yn 2018/19.<br><br>Bu gwelliant yn yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gyflawni Grant Cyfleusterau i’r Anabl yn ystod y cyfnod hwn. Gellir egluro hynny’n rhannol yn sgîl y gostyngiad yn yr amser a gymerwyd ar gyfer asesiad Therapi Galwedigaethol Cymunedol (COT). Mae’r data’n anghyflawn oherwydd yr amharu gan Covid-19 oherwydd bod y syrfewyr yn methu archwilio a chymeradwyo’r gwaith a gwblhawyd yn ystod mis Mawrth 2020.<br><br>Data Cymru gyfan yn ystod blwyddyn lawn 2018/19 (y data diweddaraf sydd ar gael) yw 207. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn y 15fed safle ar draws Cymru.</td></tr>
<tr><td>CP/034 – Canran yr achosion o gam-drin domestig lle mae pobl yn ddioddefwyr eildro – Gwasanaeth Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) – y dioddefwyr risg uchaf</td><td>35.00</td><td>38.56</td><td>40.05</td><td>33.00</td><td>Coch</td></tr>
<tr><td colspan="6">173 allan o 432 yn 2019/20 o gymharu â 155 allan o 402 yn 2018/19.<br><br>Mae’r Strategaeth ‘Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach’, sy’n gweithredu Deddf Trais yn erbyn Benywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn cydnabod yr angen am ymateb yn well i ddioddefwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot. Comisiynodd Grŵp Arweinyddiaeth VAWDASV adolygiad o Wasanaethau Dioddefwyr Risg Uchel, oherwydd galw cynyddol a phwysau ychwanegol ar wasanaethau o ganlyniad. Cynhaliwyd adolygiad systemau yn dadansoddi’r gofynion o ran gwasanaethau ac yn mapio’r broses. Gwnaed amrywiol newidiadau o ganlyniad i hyn, gan gynnwys: newidiadau i’r broses cam i fyny a cham i lawr ar gyfer dioddefwyr; newidiadau i’r cofnodi a’r monitro; cynyddu capasiti o fewn y tîm; a pholisïau a gweithdrefnau diwygiedig. Fodd bynnag, fel rhan o’r dadansoddiad o’r galw mae’n amlwg bod nifer uchel o atgyfeiriadau eildro i’r system, yn arbennig, rhai ag anghenion cymhleth. Cyflwynwyd sampl ar hap o achosion i’r Grŵp Arweinyddiaeth a bydd darn o waith yn cael ei baratoi er mwyn deall yn well: natur yr achosion, proffil dioddefwyr a phroffil cyflawnwyr a’u hanghenion ehangach. Cytunwyd y dylai’r gwaith hwn gael ei esgaladu i Fwrdd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan nad mater cysylltiedig â VAWDASV yn unig mohono. Wrth symud ymlaen, bydd y Gwasanaeth IDVA yn monitro nifer a natur yr atgyfeiriadau eildro, fel bod modd i ni: ddeall gwasanaethau’n well a’u gwella; sicrhau ein bod ni’n rhoi’r cyfle gorau posibl i ddioddefwyr ymgysylltu â’r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd; neu ystyried a allai fod angen modelau cefnogaeth amgen ar gyfer yr achosion mwy cymhleth. Ar hyn o bryd, mae’r tîm IDVA yn parhau i weithio ar ddadansoddiad o ddioddefwyr eildro, ac maen nhw’n defnyddio offeryn mapio i gasglu’r data yma a chyflwyno canfyddiadau.</td></tr>
</table>

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol** | | | | | |
| CP/040 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Gyrwyr Hŷn (75 oed a throsodd | 1 | 2 | 0 | Amh | |
| Ni chafodd dim pobl hŷn 75 oed a throsodd eu lladd na'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd yn ystod blwyddyn galendr 2019. Mae nifer y rhai sy'n mynychu ein hyfforddiant Gyrru am Oes (Drive for Life) yn dal i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. | | | | | |
| CP/041 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Beicwyr Modur – pob oed | 4 | 8 | 6 | Amh | |
| Ar hyn o bryd rydym ni'n cyflawni targed 2020 Llywodraeth Cymru. Mae ein hyfforddiant beiciau modur 'Dragon Rider' yn dal yn boblogaidd yn y gymuned beiciau modur, ac mae'r ffaith bod 'Blood Bikers' yn ei dderbyn a'i gydnabod fel tystysgrif hyfforddiant wedi codi ei broffil ymhellach. Rydym ni hefyd yn cynnal 'Bike Safe', ar y cyd â Heddlu De Cymru a'n cymorth cyntaf brys FBoS (First Bike on Scene) ar gyfer beicwyr. Yn ystod 2019-20 bu dros 233 o feicwyr modur yn mynychu'r rhain. | | | | | |
| CP/042 - **PAM/023** – Canran y sefydliadau bwyd sy'n bodloni safonau hylendid bwyd | 94.76 | 93.92 | 95.15 | 95.00 | Gwyrdd |
| Data blwyddyn lawn 2019/20 oedd 981 allan o 1,031 (95.15%) o gymharu â 988 allan o 1,052 (93.92%) yn 2018/19.<br><br>Cynnydd bach yn y perfformiad, gan fod mwy o fusnesau bwyd bellach â Sgôr Hylendid o 3, 4 neu 5.<br><br>Data Cymru gyfan ar gyfer 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 95.7%. Roedd Castell-nedd Port Talbot yn y 18fed safle ar draws Cymru. | | | | | |
| CP/048 - **PAM/025** - Mesur 19 – Cyfradd y bobl a gadwyd yn yr ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o boblogaeth 75+ | 3.08 | 6.29 | 10.05 | 3.50 | Coch |
| 130 o bobl allan o boblogaeth o 12,929 dros 75 yn 2019/20 o gymharu ag 80 allan o 12,712 yn 2018/19.<br><br>Yn ystod eleni mae'r awdurdod lleol wedi profi heriau wrth sicrhau gwasanaethau priodol ar gyfer rhai pobl i hwyluso'u rhyddhau o'r ysbyty. Mae hynny wedi golygu cynnydd yn nifer y bobl a gadwyd yn yr ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol.<br><br>Data blwyddyn lawn Cymru gyfan yn 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 4.9. | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol** | | | | | |
| CP/110 - Gweithffyrdd + - Nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith, hyfforddiant neu wirfoddoli | 117 | 139 | 127 | 64 | Gwyrdd |
| Mae Gweithffyrdd + wedi llwyddo i ragori ar y targed ar gyfer 2019/20 sy'n symud i gyflogaeth, hyfforddiant neu wirfoddoli. Mae nifer o unigolion wedi cyflawni mwy nag un canlyniad, mae hynny'n sicrhau bod ganddyn nhw'r hyfforddiant neu'r profiad angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer gwaith. | | | | | |
| CP/111 – Cymunedau am Waith a Mwy – Nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith, hyfforddiant neu wirfoddoli | | | 844 | 370 | Gwyrdd |
| Blwyddyn wych o ganlyniadau, yn rhagori ar bob targed.<br><br>Dangosydd newydd ar gyfer 2019/20. | | | | | |
| CP/112- **PAM/013** – Canran yr eiddo preifat gwag y dechreuwyd eu defnyddio eto | 4.26 | 0.57 | | 4.30 | Amh |
| Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn cael ei gasglu a'i adrodd yn flynyddol, ond oherwydd sefyllfa bresennol Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 ar hyn o bryd.<br><br>9 allan o 1,586 (0.57%) yn 2018/19 yw'r data diweddaraf sydd ar gael.<br><br>Data Cymru gyfan ar gyfer 2018/19 yw 4.6%. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn yr 21ain safle ar draws Cymru. | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi leol a'r amgylchedd fel bod modd gwella llesiant pobl** | | | | | |
| CP/063 – Nifer y swyddi a gafodd eu creu neu eu diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod lleol | 207 | 456 | 610 | 285 | Gwyrdd |
| Roedd galw uchel am ariannu ar hyd 2019/20. Yn arbennig, adroddodd 2 brosiect fod lefelau uwch na'r cyfartaledd o swyddi wedi'u creu neu eu diogelu, sydd wedi arwain at orgyflawni sylweddol yn y targed hwn. | | | | | |
| CP/067- **PAM/030** – Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | 60.65 | 60.81 | 61.74 | 64.00 | Ambr |
| Canlyniad perfformiad 'ailgylchu' 2019/20 yw 61.74% (data dros dro sy'n amodol ar ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>39,094 tunnell allan o 63,322 tunnell.<br><br>Targed statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yn 2019/20 yw 64%.<br><br>Cynhyrchodd y newidiadau a gyflwynwyd y llynedd enillion perfformiad yn strategaeth wastraff y Cyngor, yn arbennig, cafwyd llwyddiant yn cynyddu'r casgliadau gwastraff bwyd (cynnydd o 600 tunnell) a hefyd o ran lleihau gwastraff 'bagiau du' wrth ymyl y ffordd (gostyngiad o 4000 tunnell). Fodd bynnag, yn anffodus gwrthbwyswyd yr enillion hyn i raddau helaeth gan effaith anamserol ffactorau allanol. Er enghraifft, newidiodd y rheolau cenedlaethol ar wastraff pren a chollwyd peth ailgylchu o ganlyniad yn rhan gyntaf y flwyddyn (rhywbeth na ddylid ei ailadrodd yn 2020/21). Hefyd, cafodd ansicrwydd ynghylch statws mewnol yr MREC (Canolfan Ynni Adennill Deunyddiau) ac amodau cyffredinol y farchnad effaith ar y gwastraff 'bagiau du' oedd yn cael ei anfon i adennill ynni, a chollwyd rhagor o ailgylchu o ganlyniad (eto, nawr bod dyfodol yr MREC wedi cael ei benderfynu gan yr Aelodau a bod modd sefydlu trefniadau tymor hwy, ni ddylai hynny ddigwydd eto yn 2020/21). Petai'r ddau beth yma yn unig heb ddigwydd, byddai'r Cyngor wedi rhagori ar y targed o 64% gydag amcangyfrif o 64.6% yn ganlyniad.<br><br>Er i ni gasglu mwy o wastraff bwyd, gwrthbwyswyd hynny gan lai o wastraff gardd. Gwelwyd gostyngiad cychwynnol yn swm y gwastraff gardd a gasglwyd yn chwarter cyntaf 2019/20 wrth newid i'r sachau i'w hailddefnyddio, ond roedd y symiau wedi codi eto erbyn yr ail chwarter wrth i'r newid ddod yn gyfarwydd.<br><br>Daeth adennill metelau o wastraff 'bagiau du' yn yr MREC i ben pan roesom y gorau i brosesu'r deunydd ar y safle, ond yn lle hynny dylem ni gael mwy o ailgylchu o brosesau Ynni o Wastraff mewn mannau eraill. Fodd bynnag, fel uchod, effeithiwyd ar swm y gwastraff a anfonwyd at Ynni o Wastraff dros dro gan faterion cysylltiedig â statws mewnol yr MREC. | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffactor arall oedd bod llai o rwbel ar gyfer ailgylchu wedi dod i’n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff o’r Cartref yn 2019/20.<br><br>Yn olaf, cafodd argyfwng Covid-19 effaith amlwg ar gasgliadau gwastraff ac ailgylchu ym mis Mawrth 2020. Er enghraifft, er bod swm y sbwriel a gasglwyd o ymyl y ffordd, yn dilyn cyflwyno cyfyngiad gwastraff ochr y cyngor, wedi bod yn is yn achos pob un o’r 11 mis blaenorol, o gymharu â’r flwyddyn o’r blaen, ym mis Mawrth 2020 roedd yn uwch nag ym mis Mawrth 2019.<br><br>Data blwyddyn lawn Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 62.79%. | | | | | |
| CP/068 - **PAM/043** – Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person | | 216.46 | 182.02 | | |
| Mae blwyddyn lawn 2019/20 yn ddata dros dro: 26,085,550 cilogram/143,315 o boblogaeth.<br><br>Mae’r Strategaeth Wastraff a ddiweddarwyd yn cynnwys mesurau i leihau gwastraff gweddilliol.<br><br>Data o 2018/19 yr adroddwyd amdano yn achos y KPI hwn. Data blwyddyn lawn Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 180. | | | | | |
| CP/069 - **PAM/010** – Canran y strydoedd sy’n lân | 93.20 | 93.57 | 93.86 | 93.60 |  Gwyrdd |
| Daw’r ffigur hwn o arolygon ciplun yn ystod y flwyddyn ac mae’n welliant ar berfformiad y llynedd yn sgîl cyllid ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer 2019/20.<br><br>Data Cymru gyfan ar gyfer 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 94.0%. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn y 15fed safle ar draws Cymru. | | | | | |
| CP/070 - **PAM/035** – Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i glirio tipio anghyfreithlon | | 3.21 | 2.97 | | |
| Data blwyddyn lawn 2019/20 yw 2,680/901 (2.97 diwrnod) o gymharu â 3,776/1,177 (3.21 diwrnod) yn y data blwyddyn lawn ar gyfer 2018/19.<br><br>Ni phennwyd targed ar gyfer y dangosydd hwn. Data o flwyddyn ariannol 2018/19 sy’n cael ei adrodd.<br><br>Mae perfformiad wedi gwella oherwydd mynd ati i orfodi yng nghyswllt gwastraff gyda Thîm Gorfodi Gwastraff CBSCNPT, mewn cydweithrediad agos â thimau glanhau’r ardaloedd er mwyn sicrhau bod yr holl achosion tipio sbwriel lle nad oes modd gwybod pwy sy’n gyfrifol yn cael eu clirio cyn gynted â phosibl; a mynd ar ôl y lefel uchaf o gamau gorfodi yng Nghymru yng nghyswllt tipio anghyfreithlon. Mae nifer yr achosion tipio sbwriel anghyfreithlon wedi gostwng 23% ers y flwyddyn flaenorol.<br>Data Cymru gyfan ar gyfer 2018/19 (y data diweddaraf sydd ar gael) yw 2.2 ddiwrnod. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn y 14eg safle ar draws Cymru. | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi leol a'r amgylchedd fel bod modd gwella llesiant pobl** | | | | | |
| CP/072 – Nifer yr ymweliadau â'n theatrau | 249661 (data blwyddyn lawn) | 239481 (data blwyddyn lawn) | 217161 (data 9 mis) | 180000 (targed 9 mis) | Gwyrdd |
| Oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd modd casglu chwarter 4 (data blwyddyn lawn).<br><br>Adroddwyd am ddata cronnol chwarter 3 2019/20 a'r targed – mae'r gynulleidfa yn y ddwy Theatr yn dal i dyfu, gyda chynnydd o 17% yn nifer yr ymwelwyr o gymharu â chwarter 3 yn 2018/19. Mae Theatr y Dywysoges Frenhinol yn dal i adeiladu ar ei henw da fel lleoliad ar gyfer Comedïwyr y teledu a hefyd fel lleoliad cerddorol. Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe wedi adolygu eu polisi rhaglennu, er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn fwy masnachol ac yn sicrhau nifer cynyddol o fynychwyr.<br><br>Targed blwyddyn lawn 2019/20 yw 240,000. | | | | | |
| CP/073 - **PAM/040** – Canran y dangosyddion ansawdd a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | 65 | 75 | | 65 | Amh |
| Bydd data ar gael ym mis Tachwedd 2020.<br><br>Data Cymru gyfan 2018/19 yw 80.31% | | | | | |
| CP/074 - **PAM/017** – Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o boblogaeth | 7913.11 | 8063.71 | 7758.12 | 8500.00 | Coch |
| Oherwydd pandemig Covid-19 nid oedd modd coladu ffigurau ymwelwyr mewn cyfleusterau ysgol oedd yn cael eu llogi gan y gymuned yn y chwarter olaf, felly mae data'r flwyddyn yn anghyflawn. Amcangyfrifir y byddai'r data yn rhyw 8,000 o ymwelwyr petai'r holl ddata wedi'i gynnwys, sy'n dal yn is na'r targed ar gyfer y flwyddyn.<br><br>Data Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 9,116 | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi leol a'r amgylchedd fel bod modd gwella llesiant pobl** | | | | | |
| CP/077 – Nifer yr ardaloedd â chyfoeth o fioamrywiaeth a gafodd eu hamddiffyn a/neu eu gwella | 46 | 43 | 43 | 49 | Coch |
| 43 yw'r data diweddaraf sydd ar gael hyd at 31 Rhagfyr 2019.<br>Mae'r ffigur wedi'i seilio ar y rhestr gyfredol o safleoedd cadwraeth natur, sy'n cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, safleoedd 'Gweithio gyda Natur' ac ardaloedd a reolwyd yn flaenorol fel rhan o'r cynllun ardal/ymyl cadwraeth. Ar ôl adolygu'r rhestr o safleoedd, tynnwyd nifer o safleoedd oddi arni, felly bu gostyngiad o ffigur 2017/18 ac ni chyrhaeddwyd targed 2019/20. | | | | | |
| CP/078 – Nifer yr achosion o fynd dros y terfyn PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot / Taibach) | 12 (data blwyddyn lawn) | 19 (data blwyddyn lawn) | 4 (data 9 mis) | 35 (targed blwyddyn lawn) | Gwyrdd |
| 4 yw'r data diweddaraf sydd ar gael hyd at 31 Rhagfyr 2019 (data 9 mis) sy'n is na'r targed blwyddyn lawn ar gyfer mynd dros y terfyn, sef 35. Ni chyflawnwyd y gwiriadau Sicrhau Ansawdd ar y data ansawdd aer oherwydd effaith Covid-19 a phwysau gwaith arall. | | | | | |
| CP/083 - **PAM/020** – Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael | 4.52 | 5.22 | 4.99 | 5.00 | Gwyrdd |
| Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael – mae 4.99% o'r ffyrdd A mewn cyflwr cyffredinol wael. Mae hyn o fewn ein targed o 5% ar gyfer 2019/20 ac yn welliant ar ffigur 2018/19 o 5.22%.<br>Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd sy'n rhyw 855 cilometr o hyd. Mae'r rhwydwaith yn destun ystod gynhwysfawr o arolygon technegol a/neu archwiliadau bob blwyddyn, a chaiff yr wybodaeth sy'n deillio o hynny ei gwerthuso er mwyn cynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod yr arian cyfyngedig sydd ar gael yn cael ei wario er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. O ganlyniad, mae rhai darnau o ffordd a nodwyd gan y dangosyddion perfformiad fel rhai 'mewn cyflwr cyffredinol wael' (ar sail data SCANNeR) wedi cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith diweddar. Ar ben hynny, mae buddsoddiad wedi cael ei gyfeirio hefyd at adrannau eraill o'r rhwydwaith dosbarth A sy'n arddangos gwahanol nodweddion diffygiol i'r rhai yr adroddwyd amdanynt gan SCANNeR. Rhagwelir y bydd gwelliannau i ffyrdd dosbarth A yr Awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau KPI yn ystod y 2 flynedd nesaf, wrth i'r arolwg SCANNeR gydnabod manteision y gwaith diweddar i osod arwyneb newydd a wnaed ar hyd y rhwydwaith ffyrdd dosbarth A.<br>Data Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 3.9%. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn yr 20fed safle ar draws Cymru. | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi leol a'r amgylchedd fel bod modd gwella llesiant pobl** | | | | | |
| CP/084 - **PAM/021** – Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael. | 2.92 | 3.28 | 2.84 | 5.00 | Gwyrdd |
| Mae 2.84% o'r ffyrdd B mewn cyflwr cyffredinol wael. Mae hyn o fewn ein targed o 5% ac yn welliant ar ffigur 2018/19 o 3.28%.<br>Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd sy'n rhyw 855 cilometr o hyd. Mae'r rhwydwaith yn destun ystod gynhwysfawr o arolygon technegol a/neu archwiliadau bob blwyddyn, a chaiff yr wybodaeth sy'n deillio o hynny ei gwerthuso er mwyn cynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod yr arian cyfyngedig sydd ar gael yn cael ei wario er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. O ganlyniad, mae rhai darnau o ffordd a nodwyd gan y dangosyddion perfformiad fel rhai 'mewn cyflwr cyffredinol wael' (ar sail data SCANNeR) wedi cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith diweddar. Ar ben hynny, mae buddsoddiad wedi cael ei gyfeirio hefyd at adrannau eraill o'r rhwydwaith dosbarth B sy'n arddangos gwahanol nodweddion diffygiol i'r rhai yr adroddwyd amdanynt gan SCANNeR. Rhagwelir y bydd gwelliannau i ffyrdd dosbarth B yr Awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau KPI yn ystod y 2 flynedd nesaf, wrth i'r arolwg SCANNeR gydnabod manteision y gwaith diweddar i osod arwyneb newydd a wnaed ar hyd y rhwydwaith ffyrdd dosbarth B.<br><br>Data Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 4.5%. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn y 3ydd safle ar draws Cymru. | | | | | |
| CP/085 - **PAM/022** – Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael | 5.32 | 4.90 | 5.68 | 10.00 | Gwyrdd |
| Mae 5.68% o'r ffyrdd C mewn cyflwr cyffredinol wael, sydd o fewn ein targed o 10% ar gyfer 2019/20. Fe gododd rywfaint yn uwch na ffigur canlyniad 2018/19, sef 4.9%.<br>Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd sy'n rhyw 855 cilometr o hyd. Mae'r rhwydwaith yn destun ystod gynhwysfawr o arolygon technegol a/neu archwiliadau bob blwyddyn, a chaiff yr wybodaeth sy'n deillio o hynny ei gwerthuso er mwyn cynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod yr arian cyfyngedig sydd ar gael yn cael ei wario er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. O ganlyniad, mae rhai darnau o ffordd a nodwyd gan y dangosyddion perfformiad fel rhai 'mewn cyflwr cyffredinol wael' (ar sail data SCANNeR) wedi cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith diweddar. Ar ben hynny, mae buddsoddiad wedi cael ei gyfeirio hefyd at adrannau eraill o'r rhwydwaith dosbarth C sy'n arddangos gwahanol nodweddion diffygiol i'r rhai yr adroddwyd amdanynt gan SCANNeR. Rhagwelir y bydd gwelliannau i ffyrdd dosbarth C yr Awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau KPI yn ystod y 4 blynedd nesaf, wrth i'r arolwg SCANNeR gydnabod manteision y gwaith diweddar i osod arwyneb newydd a wnaed ar hyd y rhwydwaith ffyrdd dosbarth C.<br><br>Data Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 14%. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn y 3ydd safle ar draws Cymru. | | | | | |

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi leol a'r amgylchedd fel bod modd gwella llesiant pobl** | | | | | |
| CP/113- **PAM/018** – Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn brydlon | 96.64 | 96.71 | 97.44 | 95.00 | Gwyrdd |

Data blwyddyn gyfan 2019/20 yw 723 allan o 742 (97.44%) o gymharu â data 2018/19, sef 734 allan o 759 (96.71%).

Mae'r ceisiadau y penderfynwyd arnynt 'yn brydlon' yn dal ar lefel uchel iawn, gyda'r Swyddogion yn parhau i weithio gydag ymgeiswyr i gytuno ar estyniadau lle na bu modd penderfynu o fewn 8 wythnos.

Data Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 88%.

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **4 Llywodraethiant ac Adnoddau (croestoriadol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu'r manteision hirdymor i ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot** | | | | | |
| CP/086 - **PAM/001** – Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul cyflogai – diwrnodau CALl o salwch a gollwyd | 9.47 | 9.79 | 12.13 | 9.20 | Coch |

O ddadansoddi'r ffigur absenoldeb salwch hwn ar lefel gwasanaeth, gwelir cynnydd o ran salwch yn y mwyafrif o wasanaethau yn 2019/20:

| **Is-adran** | **Diwrnodau o Salwch ar Gyfartaledd 2018/19** | **Diwrnodau o Salwch ar Gyfartaledd 2019/20** |
|---|---|---|
| PRIF WEITHREDWR CYNORTHWYOL A GWASANAETHAU DIGIDOL | 7.4 | 8.3 |
| TGCH | 9.1 | 8.7 |
| ADNODDAU DYNOL | 5.7 | 14.2 |
| GWASANAETHAU ARIANNOL | 6.9 | 8.1 |
| GWASANAETHAU CYFREITHIOL | 9.1 | 9.0 |
| CYFRANOGIAD | 13.6 | 11.5 |

| | | |
|---|---|---|
| TRAWSFFURFIO | 8.5 | 8.9 |
| YSGOLION – Heblaw Athrawon | 10.6 | 11.8 |
| YSGOLION – Athrawon | 5.8 | 8.2 |
| GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – Pob Gwasanaeth | 13.4 | 17.5 |
| PEIRIANNEG A THRAFNIDIAETH | 12.6 | 13.0 |
| CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD | 5.1 | 7.7 |
| EIDDO AC ADFYWIO | 12.1 | 13.3 |
| GWASANAETHAU GOFAL STRYDOEDD | 14.4 | 16.8 |
| ASIANTAETH CEFNFFYRDD DE CYMRU | 10.4 | 11.2 |
| **Cyngor CNPT** | **9.8** | **12.1** |

Mae hyn yn peri siom ac mae gwaith yn digwydd i ddeall y ffactorau a gyfrannodd at y cynnydd hwn. Bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'w ddosbarthu i Aelodau o'r Pwyllgor Personél ym mis Hydref 2020, yn nodi'r prif dueddiadau a welwyd a chynllun gweithredu i roi sylw i absenoldeb salwch wrth symud ymlaen.

Perfformiad Cymru gyfan 2018/19 (y data diweddaraf sydd ar gael) yw 10.5 diwrnod.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CP/087 – Canran y bobl gymwys sydd wedi cofrestru i bleidleisio | 94.40 | 94.29 | 96.13 | 94.30 | Gwyrdd |

Wedi cwblhau'r broses Ganfasio Flynyddol mae canran yr etholwyr cymwys sydd wedi cofrestru trwy ein sianeli ar-lein, trwy'r post neu trwy ymweliad canfasiwr personol wedi'n galluogi i gyflawni ffigur ychydig yn uwch na'r targed eleni.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CP/088 – Nifer yr argymhellion statudol a wnaed gan archwilwyr allanol y Cyngor ar drefniadau cynllunio strategol a gweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 | Gwyrdd |

Ym mis Medi 2019, fe dderbyniwyd Adroddiad Gwelliant Blynyddol (AIR) Swyddfa Archwilio Cymru 2018/2019, nad yw'n gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno nifer o gynigion ar gyfer gwelliant ac argymhellion, sy'n deillio o waith lleol a chenedlaethol a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflwynwyd yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol llawn i'r Cyngor ar 27 Tachwedd 2019.

<table>
<tr><th>Teitl y Dangosydd Perfformiad</th><th>Gwirioneddol 17/18</th><th>Gwirioneddol 18/19</th><th>Gwirioneddol 19/20</th><th>Targed 19/20</th><th>Perff. CAG</th></tr>
<tr><td colspan="6">4 Llywodraethiant ac Adnoddau (croestoriadol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu’r manteision hirdymor i ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot</td></tr>
<tr><td>CP/097 - CS/001 – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Amserau aros cyfartalog cwsmeriaid (wyneb yn wyneb)</td><td>5.20 (data blwyddyn gyfan)</td><td>6.50 (data blwyddyn gyfan)</td><td>8.00 (data 9 mis)</td><td>8.00</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="6">Nid oes data blwyddyn gyfan ar gael ar gyfer 2019/20 oherwydd sefyllfa Covid-19. Yr wybodaeth hon yw’r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn 2019/20 hyd at 31 Rhagfyr 2019.<br><br>Sylw ar gynnydd cronnol Chwarter 3 2019/20:<br>Yr amser aros cronnol ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod yn y ddwy Siop dan yr Unto (OSS) yw 8 munud. Mae hyn 0.2 funud yn fwy nag yn yr un cyfnod o 9 mis y llynedd, sef 7.8 munud.<br>Er bod nifer yr ymholiadau wedi lleihau, sy’n gysylltiedig â symud i wahanol sianeli, mae’r ymwelwyr â’r Siopau dan yr Unto yn tueddu i drafod materion mwy cymhleth a heriol y mae angen mwy o amser i’w cwblhau.<br>Ar ben hynny:<br>• Dioddefodd y Siopau dan yr Unto o gyfnod estynedig o salwch staff, a effeithiodd ar berfformiad. Nid oedd opsiwn i ôl-lenwi â staff Canolfan Gyswllt ar gael oherwydd galw cynyddol am Wasanaethau’r Ganolfan Gyswllt.<br>• Cynyddodd y newid i broses ar-lein wrth wneud cais am Fathodyn Glas at yr amser oedd yn angenrheidiol i drafod yr ymholiad.<br>• Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr ymholiadau ynghylch pàs bysiau, oherwydd newidiadau Llywodraeth Cymru i’r broses o wneud cais am hynny ar-lein.</td></tr>
<tr><td>CP/098 - CS/004 – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Canran y Cwsmeriaid oedd yn gadael cyn cael eu gweld</td><td>0.11 (data blwyddyn gyfan)</td><td>0.13 (data blwyddyn gyfan)</td><td>0.34 (data 9 mis)</td><td>0.25</td><td>Coch</td></tr>
<tr><td colspan="6">Nid oes data blwyddyn gyfan ar gael ar gyfer 2019/20 oherwydd sefyllfa Covid-19. Yr wybodaeth hon yw’r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn 2019/20 hyd at 31 Rhagfyr 2019.<br><br>Sylw ar gynnydd cronnol Chwarter 3 2019/20:<br>Nifer cronnol y rhai oedd yn cerdded i ffwrdd yn ystod y cyfnod yn y ddwy Siop dan yr Unto (OSS) oedd 146, o gymharu â 64 yn ystod yr un cyfnod o 9 mis y flwyddyn flaenorol.<br>Er bod hwn yn gynnydd o 128% yn y rhai oedd yn cerdded i ffwrdd, mae’n cynrychioli 0.34% yn unig o gyfanswm y galwyr (42,508).<br>Ar ben hynny:<br>• Dioddefodd y Siopau dan yr Unto o gyfnod estynedig o salwch staff, a effeithiodd ar berfformiad. Nid oedd opsiwn i ôl-lenwi â staff Canolfan Gyswllt ar</td></tr>
</table>

gael oherwydd galw cynyddol am Wasanaethau'r Ganolfan Gyswllt.
• Cynyddodd y newid i broses ar-lein wrth wneud cais am Fathodyn Glas at yr amser oedd yn angenrheidiol i drafod yr ymholiad.
• Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr ymholiadau ynghylch pàs bysiau, oherwydd newidiadau Llywodraeth Cymru i'r broses o wneud cais am hynny ar-lein.

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **4 Llywodraethiant ac Adnoddau (croestoriadol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu'r manteision hirdymor i ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot** | | | | | |
| CP/101 - CS/002a – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Gymraeg | 23 | 20 | 45 | 25 | Coch |
| Rydym wedi nodi bod galwadau i linell Gymraeg y Ganolfan Gyswllt wedi parhau'n gymharol statig o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ni welwyd effaith niweidiol ar hyn yn sgîl y newid i'r math o alwadau i'r Ganolfan Gyswllt ers dechrau cyfnod y Cyfyngiadau Symud.<br><br>Yn ystod mis Ebrill 2019, gadawodd un o'r ddau oedd yn siarad Cymraeg y gwasanaeth. Effeithiodd hynny ar ein gallu i ateb galwadau Cymraeg mor gyflym ag y byddem yn dymuno, gan arwain at amserau aros hwy a chynnydd yn nifer y galwadau oedd yn cael eu gadael. Gwelwyd y sefyllfa hon yn gwella ym mis Tachwedd pan recriwtiwyd aelod newydd o staff amser llawn oedd yn siarad Cymraeg yn ogystal â phrentis modern oedd yn siarad Cymraeg. Roeddem ni'n rhagweld y byddai'r recriwtio yn cael effaith ffafriol ar berfformiad yn ystod gweddill y flwyddyn. Roedd perfformiad chwe mis cronnol Chwarter 2 yn 2019/20 yn 61 eiliad, a aeth i lawr i 52 eiliad ar gyfer cyfnod chwarter 3 (cyfnod cronnol o 9 mis) ac i lawr ymhellach i 45 eiliad ar gyfer y flwyddyn gyfan, sy'n dangos tuedd ar i lawr. | | | | | |
| CP/102 - CS/002b – Amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Saesneg | 18 | 22 | 52 | 25 | Coch |
| Mae nifer o newidiadau gwasanaeth wedi effeithio ar berfformiad yn y Ganolfan Gyswllt o ddechrau Chwarter 1.<br>• Polisi newydd – Cynllun Bagiau Gwastraff Gardd Gwyrdd – cynhyrchodd y Cynllun hwn gynnydd yn nifer y galwadau, fel bod mwy o amser yn cael ei dreulio ar y ffôn.<br>• Cynllun Gwastraff Ochr – cynhyrchodd y Cynllun newydd hwn gynnydd yn nifer y galwadau roedd angen delio gyda nhw.<br>• Newidiadau i hawlenni faniau/Codi tâl uwch am reoli plâu – mae newidiadau i bolisïau wedi golygu bod sgyrsiau hwy yn cael eu cynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth oherwydd newidiadau i drefniadau gweithredu a chynyddu prisiau.<br>• Cyfarpar technegol newydd – ym mis Ebrill derbyniodd y Ganolfan Gyswllt gyfarpar TG newydd. Ar y cychwyn creodd hynny gynnydd yn yr amser anweithredol tra bod problemau unigol yn cael eu datrys. Sefyllfa dymor byr oedd hynny. | | | | | |

• System ffôn newydd – ddechrau mis Ebrill rhoddodd y Ganolfan Gyswllt system ffôn newydd ar waith. Er ei bod yn debyg i'r system bresennol cafwyd nifer o broblemau ar y cychwyn, oedd yn golygu bod llai o staff gweithredol ar gael i ateb galwadau ar adegau.
• Recriwtio Prentisiaid Modern – ers mis Ebrill 2019, mae pedwar Prentis Modern newydd wedi cael eu derbyn i'r gwasanaeth. Gan eu bod yn cael eu hyfforddi, mae hynny wedi golygu bod trafodion yn cymryd hwy tra'u bod yn ymgyfarwyddo â'u rôl. Arweiniodd hynny hefyd at alwadau ar staff presennol i roi cefnogaeth a chymorth pan fyddai'r Prentisiaid Modern yn delio gyda galwadau. Yn sgîl newidiadau i'r strwythur staffio a roddwyd ar waith yn Chwarter 2 mae aelod penodedig o'r tîm yn awr yn gyfrifol am reoli/hyfforddi'r Prentisiaid Modern ac mae perfformiad wedi gwella o ganlyniad. Mae llawer o'r materion hyn bellach wedi cael eu datrys ac rydym wedi nodi bod perfformiad wedi gwella yn ystod Chwarter 3, a bod y duedd honno wedi parhau i mewn i Chwarter 4.

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **4 Llywodraethiant ac Adnoddau (croestoriadol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu'r manteision hirdymor i ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot** | | | | | |
| CP/103 - DBC/001 – Canran y trafodion a gwblhawyd ar-lein (gwasanaethau newydd ar-lein) | 71.12 (data blwyddyn lawn) | 76.42 (data blwyddyn lawn) | 78.67 (data 9 mis) | 80.00 | Ambr |

Nid oes data blwyddyn lawn ar gael ar gyfer 2019/20 oherwydd sefyllfa Covid-19. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael isod ar gyfer y flwyddyn 2019/20 hyd at 31 Rhagfyr 2019.

**Sylw ar gynnydd cronnol Chwarter 3 yn 2019/20:**
Chwarter 3 2019/20: 47,911 allan o 60,902.
Mae canran y trafodion a gwblhawyd ar-lein ar gyfer y gwasanaethau hynny a restrir isod wedi cynyddu. Mae'r data perfformiad yn dal ryw fymryn o dan y targed. Mae'r mesur hwn yn ymwneud â'r gwasanaethau canlynol: Casgliadau Swmpus, Hawlenni Faniau, Cyfarpar Gwastraff ac Ailgylchu a Chasgliadau Gwastraff a Gollwyd. Mae nifer sylweddol o wasanaethau ar-lein y tu allan i'r meysydd gwasanaeth hyn, ac nid yw'n hawdd cyrchu cyfanswm nifer y trafodion. Byddwn ni'n adrodd ar sail nifer y trafodion a gyflawnwyd ar-lein ac yn gweithio gyda meysydd gwasanaeth i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) sy'n adlewyrchu effaith symud gwasanaethau ar-lein.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CP/105 - CFH/008 – Canran yr ardrethi annomestig oedd yn ddyledus am y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol | 98.66 | 98.08 | 98.71 | 98.00 | Gwyrdd |

Data blwyddyn lawn 2019/20 yw £42.64m allan o £43.20m, o gymharu â data blwyddyn lawn 2018/19 o £41.939M allan o £42.761M. Rydym wedi cyflawni ein targed cyfradd gasglu ar gyfer 2019/20.

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **4 Llywodraethiant ac Adnoddau (croestoriadol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu'r manteision hirdymor i ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot** | | | | | |
| CP/106 - PAY/001 – Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 92.02 | 93.22 | 94.25 | 95.00 | Ambr |
| Cyfanswm nifer yr anfonebau a dalwyd yn ystod y flwyddyn rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 oedd 108,431, ac o hynny talwyd 102,192 o fewn 30 diwrnod. Mae canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod fymryn yn is na'r targed, ond mae o fewn y lefel perfformiad disgwyliedig.<br><br>Yn ystod 2019/20, swm y llog a dalwyd i gyflenwyr oedd dim. Swm y llog yr oedd y Cyngor yn atebol i'w dalu oedd £73,642.43.<br>Ym mlwyddyn ariannol 2018/19 talwyd 108,287 allan o 116,166 o anfonebau o fewn 30 diwrnod. | | | | | |
| CP/107 - CFH/007 – Canran treth y cyngor oedd yn ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod | 98.14 | 98.05 | 98.07 | 98.00 | Gwyrdd |
| Data blwyddyn gyfan 2019/20 yw: £71.17m allan o £72.57m o gymharu â data blwyddyn lawn 2018/19 o £67.342M allan o £68.684M.<br><br>Rydym wedi cyflawni ein cyfradd gasglu darged ar gyfer 2019/20. | | | | | |
| CP/114 – Canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg | | 25.26 | 20.62 | | |
| **Data 2019/20:** 28,100 o siaradwyr Cymraeg ac roedd y boblogaeth 3 oed a throsodd yn y fwrdeistref yn 136,300 o bobl.<br><br>Cymerir y data o gyfresi data Blynyddol yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS) sy'n cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'r data hwn ar gyfer Cymru wedi'i seilio ar sampl a fwyhawyd (tua 350 y cant yn fwy) o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gan fod y data'n dod o arolwg, mae'r canlyniadau yn amcangyfrifon a seiliwyd ar samplau, ac felly yn destun gwahanol raddau o amrywiadau samplo.<br><br>Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg (WLPS) 2018-2023 yn nodi sut rydym ni'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn CNPT. Adroddwyd ar gynnydd yn y flwyddyn gyntaf, Medi 2018 – Hydref 2019, i'r Cabinet ar 5 Chwefror 2020. Bydd cynnydd o ran y cyfnod Medi 2019 - Hydref 2020 yn cael ei adrodd i'r Cabinet yn y man. | | | | | |

Roedd cyfradd y cynnydd yn ystod y flwyddyn gyntaf hon yn gymysg, ond nodwyd cynnydd sylweddol mewn rhai meysydd, er enghraifft hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith rhieni a darparwyr gofal plant sydd wedi gwireddu cynnydd yn nifer y plant a fu'n cael mynediad i ofal plant Dechrau'n Deg yn Gymraeg yn ystod 2018-2019 (135 yn 2018-2019 o gymharu â 104 yn 2017-2018); ystod eang o gyrsiau ar gael i'r rhai sydd am ddysgu Cymraeg; mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot wedi defnyddio arian adran 106 i gychwyn prosiect yn Rhos sy'n hyrwyddo, yn annog ac yn gwella defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol.

Cymeradwywyd Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ym mis Hydref 2018 felly mae'r adroddiad blynyddol cyntaf yn rhedeg o fis Hydref i fis Medi (at ddibenion adrodd). Fodd bynnag, wrth symud ymlaen rydym ni'n awyddus i sicrhau cyfatebiaeth â llinellau amser adroddiadau eraill, e.e. Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol.

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|

## Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) 2019-20

**(mae'r mesurau sy'n weddill sydd heb eu cynnwys yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) uchod ar gyfer y Cynllun Corfforaethol wedi'u rhestru isod)**

Oherwydd pandemig Covid-19 nid yw'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cael eu casglu a'u cymharu'n genedlaethol ar gyfer 2019/20. Mae rhai o'r dangosyddion perfformiad yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru felly mae'n bosibl y bydd data cymaradwy ar gyfer 2019/20 yn dal ar gael.

Er na fydd cymharu'n genedlaethol yn bosibl yn achos y gyfres hon o fesurau eleni, lle bo modd rydym wedi darparu ein perfformiad ein hunain ar gyfer y mesurau hyn yn 2019-20 fel rhan o'r ddogfen hon. Mae 25 o'r 30 PAM wedi'u cynnwys uchod yn ein cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Mae gan y Dangosyddion hyn gyfeirnod PAM yn nheitl y dangosydd perfformiad (print coch bras).

Mae'r 5 PAM sy'n weddill wedi'u rhestru isod.

Mae'r mesurau PAM yn gyfres o fesurau cenedlaethol sy'n galluogi Cynghorau i roi cyfrif am eu perfformiad i'r cyhoedd, gan gynnwys cymharu eu perfformiad ag eiddo Cynghorau eraill.

| Teitl y Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 17/18 | Gwirioneddol 18/19 | Gwirioneddol 19/20 | Targed 19/20 | Perff. CAG |
|---|---|---|---|---|---|
| PI/278 - **PAM/036** – Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gyflwynwyd fesul 10,000 o aelwydydd | | 25 | | | |

Nid yw'r wybodaeth hon fel arfer ar gael tan ddiwedd y flwyddyn galendr. Mae'n bosibl y bydd pandemig presennol Covid-19 yn effeithio ar yr amserlen hon. Ni phennwyd targed ar gyfer y dangosydd hwn. Adroddwyd am ddata blwyddyn ariannol 2018/19.

Y ffigur Cymru gyfan fesul 10,000 o aelwydydd ar gyfer 2018/19 (y data diweddaraf) yw 19.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| PI/280 - **PAM/019** – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | 61.54 | 61.54 | 50.00 | 63.00 | Coch |
| 3 o 6 yn ystod 2019/20.<br><br>Mae cyfradd lwyddiant o 50% yn siomedig ac yn is na'r 'safon' Genedlaethol o ryw 67%, fodd bynnag mae nifer isel yr apeliadau y penderfynwyd yn eu cylch yn ystod 2019/20 yn golygu bod pob apêl a gollwyd yn effeithio'n anghymesur ar y perfformiad blynyddol ar ffurf canran (h.y. petaem ni wedi ennill 4 o'r 6 buasai'r perfformiad yn codi i 67%).<br><br>Data Cymru gyfan 2018/19 (y diweddaraf sydd ar gael) yw 67.6%. | | | | | |
| PI/412 - **PAM/045** - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ailddechrau defnyddio eiddo gwag | 0 | 0 | | | |
| Caiff y data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn ei gasglu a'i adrodd yn flynyddol, ond oherwydd sefyllfa bresennol Covid-19 nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer 2019/20.<br><br>Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn. Nid oes data cymaradwy ar gael ar gyfer y mesur hwn. | | | | | |
| PI/415 - **PAM/041** – Canran cleientiaid y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | | 70.15 | 79.18 | 70.00 | Gwyrdd |
| 445 o 556 (NERS).<br><br>Cyflawnwyd y targed oherwydd y gwaith parhaus sy'n cysylltu gweithwyr iechyd proffesiynol ar draws Castell-nedd Port Talbot. Mae CBSCNPT hefyd yn cysylltu ag unedau Ailsefydlu fel y rhai Ysgyfeiniol/Cardïaidd/Strôc ac yn cydweithio'n agos â'r timau hynny i sicrhau llif o gleientiaid NERS. Mae CBSCNPT yn dadansoddi'r atgyfeiriadau ac yn siarad â'r Meddygfeydd Teulu hynny sydd â chyfraddau atgyfeirio isel.<br><br>Dangosydd newydd ar gyfer 2018/19, dim data ar gyfer 2017/18. | | | | | |
| PI/416 - **PAM/042** – Canran y cleientiaid a fu'n cyfranogi yn y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff (NERS) yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff | | 100 | 63.82 | 100 | Coch |
| 286 o 445 (NERS). Mae'r ffigur o 63.82% yn is na'r targed a ddymunir, sef 100%. | | | | | |

Mae’r dangosydd hwn yn mesur nifer y cleientiaid Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff (NERS) a adroddodd (trwy holiadur gweithgarwch) am gynnydd yn eu munudau hamdden ar ôl 16-wythnos. Munudau hamdden yw’r cyfnod o amser sy’n cael ei dreulio yn bod yn actif y tu allan i’r gwaith. Mae cynnydd yn y munudau hamdden yn arwydd o welliant yn y canlyniadau iechyd. Mae’r wybodaeth wedi’i seilio ar ganfyddiad yr unigolion o’u gwelliant a’u hiechyd eu hunain (wedi gwella, wedi aros yr un fath neu wedi gwaethygu).

Mae llawer o ffactorau’n cael eu cymryd i ystyriaeth ac ar y cyfan mae’r cleientiaid yn nodi gwelliant yn eu hiechyd/llesiant corfforol a meddyliol.

Dangosydd newydd ar gyfer 2018/19, dim data ar gyfer 2017/18.